

Trosolwg

Diabetes yw un o'r afiechydon cronig mwyaf cyffredin yn ystod plentyndod yn y DU, gan effeithio ar 1 ym mhob 250 o blant. Mae'n rhaid i blentyn â diabetes Math 1 (y math mwyaf cyffredin yn ystod plentyndod) hunanchwistrellu inswlin yn rheolaidd neu ddefnyddio pwmp inswlin i gadw lefel ei glwcos yn y gwaed o fewn terfynau derbyniol, gan ddibynnu ar yr hyn y mae wedi'i fwyta neu ei weithgarwch corfforol.

Mae academyddion ym Mhrifysgol Caerdydd yn ceisio deall y berthynas rhwng y ffordd y mae diabetes yn ystod plentyndod a rheoli diabetes yn effeithio ar brofiad plentyn o'r ysgol. Mae'r cysylltiad rhwng diabetes sy'n datblygu yn ystod plentyndod ac addysg yn bwysig oherwydd ei fod yn ymwneud â pha mor dda y mae plant yn llwyddo yn yr ysgol a'r hyn y byddant yn mynd ymlaen i'w gyflawni'n academiaidd ac yn eu gyrfaedd yn y dyfodol. Bydd effaith byw gyda diabetes yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd plentyn, boed y teulu, ffrindiau a'i hunanbarch.

Canfu ein hymchwili fod plant sy'n byw gyda diabetes yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol. Roedd y rheini sy'n wynebu heriau o ran rheoli eu diabetes yn methu 15 sesiwn yn fwy yn yr ysgol bob blwyddyn, roedd ganddynt gyrhaeddiad addysgol is ac roeddent hefyd hanner mor debygol o fynd i'r brifysgol â phlant heb ddiabetes.

Cyd-destun y polisi

Yn gyfreithiol, mae Deddf Cydraddoldeb 2010¹ yn diffinio plant â diabetes yn bobl anabl. Mae gan y GIG, awdurdodau lleol ac ysgolion gyfrifoldebau tuag at y plant hyn er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu rhoi dan anfantais o'u cymharu â myfyrwyr eraill. Er enghraifft, mae'n rhaid i ysgolion wneud addasiadau rhesymol fel y bydd plant yn cael digon o amser a lle i reoli lefelau'r glwcos yn eu gwaed yn ogystal â hunanfeddyginiaethu. Nodir y canllawiau sy'n cefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflawni eu dyletswyddau mewn rheoliadau². Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018³ yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd sy'n cefnogi plant a phobl ifanc y mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r deddf hon yn cymryd lle'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau ac anabledau dysgu (AAD) ym myd addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'r Ddeddf yn nodi sut y dylid cefnogi plant a phobl ifanc o dan 25 oed sydd ag ADY yn eu haddysg a'u hyfforddiant. Mae'n cynnwys cyflwyno mesur statudol newydd o'r enw Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) ac yn rhoi'r hawl i bob plentyn a'i rieni gyflwyno apêl.

Mae *Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Diabetes 2016 hyd 2020*⁴ Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i roi'r gofal a'r cymorth gorau posibl i bawb yng Nghymru sydd â diabetes. Mae'r Cynllun yn ymrwymo i adnabod plant a phobl ifanc â diabetes Math 1 yn gynnar a rhoi cymorth dwys iddynt, gan nodi "y dylai plant sy'n byw gyda diabetes dderbyn y cymorth a'r gofal gorau posibl ym mhob cyd-destun gan gynnwys ysgolion". Mae'n pwysleisio "bod yn rhaid cefnogi lleoliadau addysgol i hyfforddi staff i gefnogi plant a phobl ifanc â diabetes er mwyn osgoi pyliau hypoglycemig a chyfrif y carbohydradau a rhoi inswlin i blant ifanc. Mae'n rhaid cefnogi pobl ifanc â diabetes i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd addysgol, gan

¹ Llywodraeth y DU (2010) [Deddf Cydraddoldeb 2010](#), gwefan legislation.gov.uk (cyrchwyd 17 Hydref 2022).

² Llywodraeth Cymru (2022) [Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 \(Disgyblion Ysgol Anabl\) \(Cymru\) 2021](#), gwefan Llywodraeth Cymru (cyrchwyd 17 Hydref 2022).

³ Llywodraeth Cymru (2018) [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#), gwefan Llywodraeth Cymru (cyrchwyd 17 Hydref 2022).

⁴ Llywodraeth Cymru (2016) [Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Diabetes 2016-2020](#), Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

gynnwys teithiau preswyl.”

Mae'r canllawiau statudol a pherthnasol (*Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd*⁵) yn sicrhau y “dylai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd gael eu cefnogi'n briodol fel y gallant gymryd rhan lawn yn eu haddysg, gan gynnwys teithiau ac addysg gorfforol, ac mae'n rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd”.

Canfyddiadau'r ymchwil

Cwblhaodd Prifysgol Caerdydd, mewn partneriaeth â Diabetes UK, y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH), a NHS Digital astudiaeth wyth mlynedd ar ddeilliannau addysgol pobl ifanc â diabetes Math 1. Nododd yr astudiaeth feintiol unigolion mewn setiau data archwilio diabetes cenedlaethol (Yr Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol a'r Archwiliad Diabetes Cenedlaethol) a'u cysylltu â data am ysgolion ac addysg uwch.

Defnyddiodd yr ymchwil brawf gwaed i wybod beth oedd lefelau'r glwcos yn y gwaed ar gyfartaledd yn ystod y ddau neu dri mis diwethaf (lefelau HbA1c). Plant sy'n wynebu anawsterau wrth reoli eu diabetes, fel yr amlygir yn y dangosyddion hyn:

- Wedi colli 15 yn fwy o sesiynau ysgol bob blwyddyn na disgyblion eraill heb ddiabetes.
- Wedi cyflawni pum gradd yn is mewn arholiadau ysgol (TGAU) yn 16 oed na phlant heb ddiabetes.
- Yn llai na hanner tebygol o fynd i'r Brifysgol o'u cymharu â phlant heb ddiabetes.

Er gwaethaf y gwahaniaethau pwysig hyn, ceir hefyd agweddau cadarnhaol i'w pwysleisio yn yr ymchwil ac mae'r rhain yn bwysig o ran sut rydym yn mynd i'r afael â'r heriau o safbwynt iechyd ac addysg pobl ifanc â diabetes. Yn gyntaf, er bod cynnydd o ran pa mor aml y bydd pob plentyn â diabetes yn absennol o'r ysgol (ni waeth sut maent yn rheoli diabetes), mae llawer o blant yn perfformio'n dda o hyd yn eu haddysg (yn 16 oed yn ogystal â mynd i'r brifysgol). Yn ail, nid oedd gwahaniaeth o ran cyrhaeddiad academiaidd yn 16 oed ar gyfer plant â diabetes a oedd wedi cael diagnosis yn ddiweddar o'u cymharu â'r rheini a gafodd ddiagnosis yn gynharach yn ystod plentyndod. Mae'r ddau ffactor hyn yn awgrymu mai ffactorau cymdeithasol sy'n pennu'r cysylltiad rhwng diabetes ac addysg yn hytrach na mecanweithiau biolegol megis glwcos yn y gwaed sy'n effeithio ar weithrediad yr ymennydd.

Argymhellion

- Dylai ysgolion, awdurdodau lleol, a gwasanaethau iechyd weithio ar y cyd i gefnogi anghenion iechyd y plentyn a'i anghenion addysgol, yn enwedig yn achos plant a oedd eisoes yn cael trafferth gyda'u haddysg cyn cael diagnosis diabetes, er mwyn osgoi'r anfantais ddwbl o deilliannau iechyd ac addysg llai wrth i'r person ifanc ddechrau'r cyfnod pontio i fynd oedolion.
- Dylai timau diabetes pediatrig gael yr adnoddau i roi hyfforddiant a chymorth i ysgolion i sicrhau bod gan staff ysgol y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i gefnogi plant.
- Dylai awdurdodau lleol gefnogi ysgolion nad oes ganddynt 'Bolisi ar Amodau Meddygol' digonol i sicrhau bod hwn ar gael a'i fod yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn.
- Dylai Estyn werthuso pa mor effeithiol y mae ysgolion a lleoliadau addysgol yn gweithredu'r canllawiau statudol yn rhan o'u proses arolygu.
- Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod digon o staff sydd wedi'u hyfforddi'n llawn i gefnogi plant i reoli eu diabetes, gan gynnwys cyfnodau o salwch staff a theithiau ysgol.
- Dylai awdurdodau lleol gefnogi ysgolion i sicrhau bod gan bob plentyn â diabetes gynllun gofal iechyd unigol sy'n nodi'n union beth yw ei anghenion a phwy fydd yn ei helpu.
- Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod pob plentyn â diabetes yn cael ei gefnogi'n llawn i reoli ei gyflwr mewn lleoedd cyhoeddus neu breifat yn yr ysgol, yn unol â'i ddymuniadau.

⁵ Llywodraeth Cymru (2017) [Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd](#), Caerdydd: Llywodraeth Cymru.